



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Cytundeb Cydweithio

2021

# Cynnwys

- 1** Cyflwyniad
- 3** Rhaglen Bolisi
- 3** Gweithredu Radical mewn Cyfnod Heriol
- 5** Cymru Wyrddach i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur
- 7** Diwygio Sylfeini Cymru
- 9** Creu Cymru Unedig, sy'n Decach i Bawb



**Mark Drakeford AS**

Prif Weinidog Cymru



**Adam Price AS**

Arweinydd Plaid Cymru

# Cyflwyniad

## Bron i chwarter canrif yn ôl, pleidleisiodd pobl Cymru o blaid hunanlywodraeth i Gymru, gydag addewid am fath newydd o wleidyddiaeth.

Rhoesant eu ffydd mewn democratiaeth newydd gyda chyfarwyddyd i weithio mewn ffordd wahanol – yn gynhwysol ac yn gydweithredol.

Heddiw, wrth i Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ddod ynghyd yn y Cytundeb Cydweithio hwn, rydym yn cymryd cam arall ymlaen yn ein hymdrech ar y cyd i wireddu'r addewid hwnnw o wleidyddiaeth newydd – un sy'n radical o ran ei sylwedd ac yn gydweithredol yn ei ffordd o weithio.

Ar ddechrau'r Chwched Senedd, mae gan Gymru gyfleoedd mawr o'i blaen, ond mae hefyd yn wynebu amryw heriau.

Rydym yn parhau i ymateb i bandemig byd-eang na welwyd ei debyg o'r blaen, un sydd wedi hawlio bywydau miliynau o bobl ledled y byd ac wedi effeithio ar bob agwedd ar fywyd pob dydd.

Mae'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur gyda'i gilydd yn fygythiad llawer gwaeth a mwy pellgyrhaeddol i'n gwlad a'n ffordd o fyw na phandemig y coronafeirws, a hynny oni bai ein bod yn gweithredu ar fyrder i liniaru'r effeithiau gwaethaf. Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i greu Cymru carbon isel a symud tuag at sero net, ond bydd y cynlluniau hynny yn dibynnu ar ein parodrwydd ni a'n gwasanaethau cyhoeddus i wneud dewisiadau a rhoi ar waith newidiadau anodd.

Mae'r Deyrnas Unedig bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, ond rydym yn dal i ddelio ag effaith y penderfyniad hwn ac yn gweld yn ddyddiol sut mae Llywodraeth Geidwadol y DU yn gweithredu, yn gwbl benderfynol i gronni'r grym yn San Steffan a gwrthdroi datganoli.

Ar ddechrau tymor y Senedd hon, mae'n bwysicach nag erioed bod gennym Senedd gref yng Nghymru a all gydweithio ac ymateb yn effeithiol i'r heriau hyn a chreu newid gwirioneddol a pharhaol i bobl Cymru.

Bwriad y Cytundeb Cydweithio hwn yw ymateb i'r heriau allanol hyn a'r angen hwnnw am Senedd sefydlog a chanddi'r cryfder i wneud newidiadau a diwygiadau radical.

Mae'r ymrwymïadau yn y cytundeb hwn wedi'u seilio ar nifer o werthoedd a rennir – cydsefyll cymdeithasol, planed gynaliadwy a democratiaeth iach.

Bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn gweithio gyda'i gilydd dros y tair blynedd nesaf i wireddu'r ymrwymadau polisi a nodir yn y ddogfen hon – polisiâu y mae gennym ddiddordeb cyffredin i'w rhoi ar waith ar ffurf datrysiadau blaengar – boed hynny drwy sicrhau nad oes yr un plentyn yn llwglyd neu drwy sicrhau cartref i bawb. Boed hynny drwy weithio gyda'n gilydd i ystyried dyfodol hirdymor gofal cymdeithasol, neu drwy wireddu ein hymrwymiad cytûn i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gyda'n gilydd, byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i fynd i'r afael â'r materion hynny sy'n galw am ymdrechu'n galed i gynnig datrysiadau cymhleth yn wleidyddol ac o ran polisi. Gyda'n gilydd, ein nod fydd cynnig datrysiadau blaengar a ddyfeisiwyd yng Nghymru.

Pan fo cytundeb yn bosibl, mae'n iawn disgwyl i bleidiau gwleidyddol weithio gyda'i gilydd. Edrychwn ymlaen at wneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i bobl Cymru.

'A fo ben, bid bont', a'n gobaith yw y bydd y bartneriaeth hon yn helpu i atgyfnerthu'r bont yr ydym yn parhau i'w chodi gyda'n gilydd fel cenedl.

## Rhaglen Bolisi

# Gweithredu Radical mewn Cyfnod Heriol

**Mae'r heriau sy'n ein hwynebu yn sgil y pandemig yn golygu bod angen gweithredu radical, gan wella bywydau pawb yng Nghymru.**

Boed yn blant ysgol sy'n llwglyd neu'n rhieni sy'n gorfod ceisio ymdopi â chostau gofal plant a mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar. Boed yn gynnydd mewn biliau cartrefi, yn argyfwng tai sy'n effeithio ar bob cenhedlaeth, neu'n bobl hŷn sy'n pryderu a allant fforddio gofal pan fyddant ei angen, bydd y cytundeb hwn yn cefnogi pobl drwy gydol eu hoes, yn ystod y cyfnodau mwyaf heriol.

Bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn uchelgeisiol o ran y camau y byddwn yn eu cymryd gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

### Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Prydau ysgol am ddim** – Ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, dros gyfnod y cytundeb hwn, er mwyn cymryd cam pellach tuag at ein nod ar y cyd na ddylai'r un plentyn fod yn llwglyd. Rydym yn cytuno y bydd prydau ysgol am ddim ym mhob ysgol gynradd yn trawsnewid y sefyllfa o ran plant sy'n llwglyd neu sy'n byw mewn tlodi. Bydd hyn yn cefnogi cyrhaeddiad addysgol, maeth plant a chynhyrchu a dosbarthu bwyd lleol, gan hybu economiau lleol.
- **Gofal plant** – Ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Dyfodol Gofal Cymdeithasol** – Sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi ein nod ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, gan barhau fel gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn cytuno ar gynllun gweithredu erbyn diwedd 2023. Byddwn yn parhau i integreiddio iechyd a gofal yn well ac i weithio tuag at sicrhau cydraddoldeb o ran cydnabyddiaeth a thâl i weithwyr iechyd a gofal.
- **Ail gartrefi** – Gweithredu ar unwaith ac yn radical i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ail gartrefi a thai anfforddiadwy, gan ddefnyddio'r system gynllunio, y system eiddo a'r system drethu. Mae'r camau sy'n cael eu cynllunio'n cynnwys gosod terfyn ar nifer yr ail gartrefi a thai gwyliau; mesurau i ddod â rhagor o

gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin; cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau; mwy o bwerau i awdurdodau lleol osod cyfraddau premiwm y dreth gyngor a chynyddu trethi ar ail gartrefi. Byddwn yn ymchwilio i forgeisi awdurdodau lleol.

- **Cwmni adeiladu cenedlaethol** – Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i helpu cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
- **Diogelwch adeiladau** – Diwygio'r system diogelwch adeiladau bresennol yn sylweddol – system sydd wedi caniatáu diwylliant o dorri corneli ar draul diogelwch y cyhoedd. Byddwn yn cyflwyno ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru.
- **Eiddo a Rhenti Teg** – Cyhoeddi Papur Gwyn a fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer hawl i gartref digonol, y rôl y gallai system rhenti teg (rheoli rhenti) ei chwarae o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol a dulliau newydd i wneud cartrefi'n fforddiadwy.
- **Digartrefedd** – Rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Os yw pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref, dim ond am gyfnod byr yn unig y dylai

hynny fod, a dylai'r achosion fod yn brin a pheidio ag ailddigwydd. Byddwn yn diwygio cyfraith tai, yn defnyddio'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o sicrwydd i rentwyr ac yn gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

- **Diwygio'r dreth gyngor** – Diwygio un o'r mathau lleiaf teg o drethu – un sy'n effeithio'n anghymesur ar ardaloedd tlotach Cymru – i'w gwneud yn decach.
- **Caffael** – Ystyried sut y gellir gosod targedau ystyrllon i gynyddu lefel caffael sector cyhoeddus Cymru o'r lefel bresennol, sef 52%. Fel man cychwyn, byddwn yn cynnal dadansoddiad manwl o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus ac yn hyrwyddo prynu cynhyrchion a gwasanaethau o Gymru.
- **Ardollau twristiaeth lleol** – Cyflwyno ardollau twristiaeth lleol gan ddefnyddio deddfwriaeth diwygio cyllid llywodraeth leol.

# Cymru Wyrddach i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur

Yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yw'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu ein byd. Oni bai ein bod yn gweithredu nawr, bydd ein plant a phlant ein plant yn etifeddu planed fwy llygredig, fwy ansefydlog a mwy peryglus.

Drwy weithio gyda'n gilydd i ymateb i'r ddau argyfwng cysylltiedig hyn, byddwn yn cymryd camau beiddgar tuag at Gymru sero net. Byddwn yn mynd i'r afael â cholledion byd natur, yn gwella bioamrywiaeth ac yn plannu mwy o goed. Wrth i'n hinsawdd newid, mae gormod o bobl wedi deffro i weld eu cartrefi o dan ddŵr ac yn ofni pryd bydd y storm nesaf yn taro. Byddwn yn dysgu o lifogydd y gorffennol ac yn buddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd i warchod cymunedau.

Byddwn hefyd yn dechrau'r broses o ddiwygio cymorth ffermio i helpu ffermydd teuluol a busnesau amaethyddol i fod yn wyrddach ac yn fwy cynaliadwy.

## Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Sero net** – Comisiynu cyngor annibynnol i ymchwilio i lwybrau posibl tuag at sero net erbyn 2035 – y dyddiad targed presennol yw 2050. Bydd hyn yn edrych ar yr effaith ar gymdeithas a sectorau o'n heconomi a sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau andwyol, gan gynnwys sut y caiff y costau a'r manteision eu rhannu'n deg. Rydym yn cefnogi datganoli pwerau ac adnoddau pellach y mae ar Gymru eu hangen i ymateb yn fwyaf effeithiol i gyrraedd sero net, yn benodol rheolaeth dros Ystad y Goron a'i hasedau yng Nghymru.
- **Cwmni ynni sero net** – Gweithio tuag at greu Ynni Cymru, cwmni ynni o dan berchnogaeth gyhoeddus, dros y ddwy flynedd nesaf, i ehangu'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned.
- **Trafnidiaeth gyhoeddus** – Gofyn i Trafnidiaeth Cymru ymchwilio i sut y gellir datblygu'r cysylltiadau trafndiaeth rhwng y Gogledd a'r De, gan gynnwys sut i ddiogelu coridorau teithio posibl ar arfordir y Gorllewin. Byddwn

yn parhau i fwrw ymlaen â datblygiadau'r Metro i wella cysylltedd ac annog pobl i droi at drafnidiaeth gyhoeddus. Byddwn yn gofyn i Trafnidiaeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol yn y Gogledd-orllewin a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer system drafnidiaeth integredig.

- **Bioamrywiaeth** – Cytuno bod gan dargedau a chorff llywodraethu amgylcheddol rôl i'w chwarae o ran helpu i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd yn ein hamgylcheddau tirol a morol.
- **Plannu coed** – Gweithio gyda'r gymuned ffermio i annog creu coetiroedd ar dir llai cynhyrchiol a thrwy amaeth-goedwigaeth. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i dirfeddianwyr a ffermwyr gweithredol drwy'r cynllun ffermio cynaliadwy. Byddwn yn ystyried ffyrdd o ddefnyddio buddsoddiad i greu coetiroedd sy'n sicrhau perchnogaeth a rheolaeth leol.
- **Llygredd amaethyddol** – Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned ffermio i wella ansawdd dŵr ac ansawdd aer, drwy weithredu Rheoliadau Adnoddau Dŵr 2021, gan dargedu'r gweithgareddau hynny yr ydym yn gwybod eu bod yn achosi llygredd.
- **Adolygiad o lifogydd** – Comisiynu adolygiad annibynnol o adroddiadau adran 19 llywodraeth leol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd eithafol gaeaf 2020-21, a gweithredu ar yr argymhellion.
- **Buddsoddi cyfalaf a chreu gwydnwch cenedlaethol o ran llifogydd** – Buddsoddi mwy mewn rheoli a lliniaru llifogydd a chynllunio i ymateb i berygl cynyddol llifogydd. Byddwn yn gofyn i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru asesu sut y gellir lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd mewn cartrefi, busnesau a seilwaith ledled y wlad erbyn 2050.
- **Cynllun ffermio cynaliadwy** – Cyflwyno cyfnod pontio wrth inni ddiwygio'r system taliadau ffermio fel y bydd taliadau sefydlogrwydd yn parhau i fod yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod tymor y Senedd hon a'r tu hwnt. Byddwn yn cytuno ar y trefniadau tymor hwy ar gyfer amaethyddiaeth Cymru, gan gydnabod anghenion penodol ffermydd teuluol a chydabod cynhyrchu bwyd lleol sy'n gynaliadwy yn ecolegol.
- **Strategaeth bwyd cymunedol** – Datblygu strategaeth bwyd cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru.



# Diwygio Sylfeini Cymru

**Gan fod datganoli o dan fygythiad gan Lywodraeth Geidwadol bresennol y DU, rhaid inni anfon neges glir i San Steffan bod y Senedd yma i aros a bod penderfyniadau am Gymru yn cael eu gwneud yng Nghymru.**

Golyga hyn ddiwygio ein system etholiadol i alluogi seneddwyr Cymru i gynrychioli'r bobl yn fwy effeithiol, a mynd ati o ddiifri i ystyried yr holl opsiynau ar gyfer dyfodol ein cyfansoddiad.

Byddwn yn parhau i ddiwygio ein system addysg i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein holl ddysgwyr ynghyd â'u cynnydd academaidd, yn arbennig plant difreintiedig. Byddwn yn gweithio i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd a'u diogelu rhag ymosodiadau gan Lywodraeth y DU ar eu hannibyniaeth. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol a'i chefnogi.

## **Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gwneud y canlynol:**

- **Diwygio'r Senedd** – Cefnogi cynlluniau i ddiwygio'r Senedd, yn seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau; system bleidleisio sydd yr un mor gyfrannol – neu'n fwy cyfrannol – na'r un bresennol, gyda chwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith. Byddwn yn cefnogi gwaith Pwyllgor Diben Arbennig y Senedd ac yn cyflwyno Bil ar ddiwygio'r Senedd 12 i 18 mis ar ôl i'r pwyllgor hwnnw gyflwyno'i adroddiad.
- **Y Comisiwn Cyfansoddiadol** – Cefnogi gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Mae'r ddwy blaid yn rhydd i gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn a rhyngweithio ag ef yn annibynnol. Bydd adroddiad interim ac adroddiad terfynol y Comisiwn yn cael eu cyflwyno ar y cyd i'r ddwy blaid.
- **Darlledu** – Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch elfennau bregus yn y cyfryngau ar hyn o bryd a'r ymosodiadau ar eu hannibyniaeth. Byddai'r corff hwn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y maes digidol ac yn annog lluosogrwydd yn y cyfryngau. Rydym ni o'r farn y dylai pŵerau darlledu a chyfathrebu gael eu datganoli i Gymru.
- **Cymorth ariannol ar gyfer y cyfryngau** – Cyllido mentrau presennol a newydd i wella newyddiaduraeth yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â diffyg gwybodaeth.

- **Arfor** – Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng y rhannau mwyaf tlawd a mwyaf cyfoethog o'r wlad drwy adeiladu ar gynllun peilot Arfor, a oedd yn hybu entrepreneuriaeth, twf busnesau, cadernid cymunedol a'r Gymraeg. Byddwn yn creu ail gam gyda llywodraeth leol ac yn gofyn i'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ystyried a chynllunio modelau ar gyfer cydweithio rhwng llywodraeth leol yn y Gorllewin ac yng Nghymoedd y De, ar gyfer ymateb i heriau a chyfleoedd a rennir.
- **Ysgol Lywodraethu Genedlaethol** – Ymchwilio i weld sut y gallai sefydlu Ysgol Lywodraethu Genedlaethol gyfrannu at wireddu'r egwyddor o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un.
- **Trefniadau partneriaethau rhanbarthol** – Parhau i adolygu gwaith partneriaethau rhanbarthol, ar y cyd â phartneriaid llywodraeth leol, i sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn gweithio i Gymru wrth i drefniadau ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd gael eu cyflwyno. Dylai unrhyw newidiadau gael eu harwain yn lleol a'u hysgogi gan yr hyn sy'n gweithio orau a dylid eu seilio ar flaenoriaethau lleol a chysylltiadau sy'n bodoli eisoes.
- **Gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy** – Gweithio gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac eraill i ddeall cyllid cyhoeddus datganoledig ac anghenion gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn y dyfodol. Byddwn yn chwilio am ffordd newydd o fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn cyllid yn y dyfodol, yn tyfu ein sylfaen drethu ac yn ystyried goblygiadau cyllidol unrhyw argymhellion gan y Comisiwn Cyfansoddiadol.
- **Athrawon cyflenwi a phlant sy'n derbyn gofal** – Rydym ni o'r farn na ddylid cynnal y ddau wasanaeth hanfodol hyn er elw preifat. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu opsiynau ar gyfer model mwy cynaliadwy ar gyfer athrawon cyflenwi, gyda gwaith teg wrth wraidd y model hwnnw. Bydd y model yn cynnwys opsiynau amgen a arweinir gan yr awdurdodau lleol a chan yr ysgolion a bydd yn rhoi fframwaith ar waith i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.
- **Dyddiadau tymhorau ysgol** – Amcanu at ddiwygio dyddiadau tymhorau ysgol er mwyn iddynt gyd-fynd yn well â phatrymau bywyd teuluol a chyflogaeth. Byddwn hefyd yn ystyried yr opsiynau i ddiwygio rhythm y diwrnod ysgol i wneud lle ar gyfer gweithgareddau a chyfleoedd mwy eang eu natur, sy'n hygyrch yn ddiwylliannol.
- **Diwygio cymwysterau** – Canolbwyntio ar brofiadau a lles wrth inni ddiwygio cymwysterau, yn unol â chwricwlwm newydd Cymru. Byddwn yn ehangu'r amrediad o gymwysterau galwedigaethol a ddyfeisiwyd yng Nghymru yn sylweddol i gyd-fynd ag anghenion ein dysgwyr a'n heconomi.
- **Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil** – Bwrw ymlaen â'r Bil hwn i alluogi darparwyr addysg i fod yn rhan o sector amrywiol, ystwyth a chydweithredol sy'n cyflawni ar ran dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau. Byddwn yn cyd-ddatblygu strategaeth arloesi genedlaethol newydd sy'n seiliedig ar genhadaeth i'w gweithredu ar draws y llywodraeth a chan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sy'n chwarae rôl flaenllaw yn hybu arloesedd yng Nghymru. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n gilydd ar ddiwygio'r cwricwlwm ôl-16 ar sail ein cwricwlwm cenedlaethol newydd, ehangu dysgu gydol oes a meithrin datblygiad proffesiynol y gweithlu.

# Creu Cymru Unedig, sy'n Decach i Bawb

**Wrth adfer o'r pandemig, rydym am sicrhau bod pawb yn cyfranogi yng nghyfleoedd y dyfodol, lle bynnag y maent yn byw, fel nad oes neb yn cael ei ddal yn ôl na'i adael ar ôl.**

Rydym yn gwrthwynebu penderfyniad byrbwyll a chreulon Llywodraeth Geidwadol y DU i dorri'r cynnydd o £20 i Gredyd Cynhwysol, a fydd yn gwthio mwy o gartrefi i dlodi wrth inni wynebu argyfwng costau byw. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i leihau anghydraddoldeb a threchu tlodi.

Rydym am wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol ac erlid stigma a chasineb. Rydym am weld Cymru lle y mae pawb yn cael eu parchu ac amrywiaeth yn cael ei dathlu. Bydd Cymru'n parhau i estyn croeso cynnes i bawb.

Mae gan Gymru hanes hir a balch a diwylliant hynod, gyda'n hiaith, sy'n ffynnu heddiw, yn sylfaen i hyn oll. Byddwn yn gweithio i gryfhau ein hiaith a'n diwylliant, gan eu diogelu pan fo angen. Byddwn yn hybu'r Gymraeg ac yn helpu i wneud yr iaith yn realiti bob dydd i bawb, wrth inni weithio tuag at ein nod cyffredin o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

## Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Strategaeth ddiwylliant** – Datblygu strategaeth ddiwylliant newydd, sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru, iaith Gymraeg ffyniannus, ein sectorau diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol wrth inni weithredu'r strategaeth a byddwn hefyd yn datblygu'r cynigion ar gyfer oriel gelf gyfoes genedlaethol.
- **Y Cwricwlwm** – Gwella'r trefniadau ar gyfer addysgu hanes Cymru, gan ystyried adroddiad Estyn. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod hanes Cymru yn elfen orfodol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd adnoddau'r cwricwlwm newydd yn cael eu datblygu i helpu i gyflwyno holl gymhlethdod ac amrywiaeth hanes Cymru. Bydd sgysiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol yn dechrau yn ystod misoedd cyntaf 2022.
- **Prosiect 2050** – Hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol mewn mwy o leoedd. Byddwn yn arwain drwy esiampl, gan gefnogi rhagor o gyrff a noddir, awdurdodau lleol a'r gwasanaeth sifil yng Nghymru i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Addysg Gymraeg** – Cyflwyno Bil Addysg y Gymraeg, a fydd, ynghyd â gwaith anneddfwriaethol mwy uniongyrchol, yn cryfhau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg; yn pennu uchelgeisiau a chymhellion newydd i ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg; yn sefydlu un continwmm dysgu Cymraeg a'i weithredu; yn galluogi ysgolion presennol i symud i gategori Cymraeg uwch ac yn ysgogi cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob lleoliad addysg.
- **Safonau'r Gymraeg** – Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i leihau rhwystrau wrth bennu Safonau'r Gymraeg; symleiddio'r broses ar gyfer gweithredu safonau, heb wanhau eu heffaith; gweithredu safonau ar gyfer trafniadaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, cyrff cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau ar hyn o bryd a chwmnïau dŵr; a dechrau'r gwaith o weithredu safonau ar gyfer cymdeithasau tai, i'w gwblhau yn ystod tymor y Senedd. Rydym wedi ymrwymo i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn llawn a byddwn yn llunio rhestr ar gyfer blaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno safonau pellach o dan ei atodlenni y tu hwnt i gyfnod y cytundeb hwn.
- **Enwau lleoedd Cymraeg** – Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo.
- **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** – Buddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu cyfran y prentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg a chynnig darpariaeth dysgu Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed.
- **Rhwydwaith Seren** – Cynyddu'r gallu i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig gymryd rhan yn Rhwydwaith Seren. Byddwn yn cynnig ysgolion haf ym mhob prifysgol yng Nghymru ar gyfer dysgwyr Sylfaen Seren, yn ehangu'r partneriaethau presennol â Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Caerdydd ac yn sefydlu cynlluniau peilot newydd mewn sefydliadau eraill yng Nghymru.
- **Mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb** – Cefnogi datganoli'r gwaith o weinyddu lles ac ymchwilio i'r seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer hyn. Byddai angen trosglwyddo'r cymorth ariannol priodol i gyd-fynd â throsglwyddo pŵer o'r fath.
- **Iechyd meddwl** – Profi i weld sut y gall cyfleusterau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan staff hyfforddedig o'r trydydd sector sydd â llwybrau atgyfeirio clir ar gyfer gwasanaethau'r GIG os oes angen – y model noddfa – helpu i gefnogi pobl ifanc sydd mewn argyfwng neu sydd â phroblem frys o ran iechyd meddwl neu les emosiynol. Byddai'r rhain yn agored gyda'r hwyr ac ar benwythnosau.
- **Anabledd** – Cryfhau hawliau pobl anabl a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y maent yn parhau i'w hwynebu. Rydym wedi ymrwymo i'r model cymdeithasol o anabledd, a gyda'n gilydd byddwn yn sicrhau llwyddiant y Tasglu Anabledd a sefydlwyd i ymateb i'r adroddiad Drws ar Glo.
- **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol** – Mynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol a systemig a chefnogi cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys yr heddlu a'r llysoedd, i wneud y cynllun mor gryf â phosibl. Rydym yn cefnogi'r ymdrechion i sicrhau y caiff pwerau plismona a chyfiawnder eu datganoli.
- **LHDTC+** – Gwneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop a chefnogi cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Byddwn yn galw am ddatganoli'r pwerau i ddeddfu i wella bywydau a diogelu pobl drawsryweddol yng Nghymru.